Hawdd ei Ddeall

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

# Newidiadau i'n gwasanaethau

## Dwed beth yw dy farn




# Hawdd ei Ddeall

Dyma fersiwn Hawdd ei Ddeall o rywfaint o wybodaeth. Falle nad yw’n cynnwys y wybodaeth i gyd ond mae’n dweud am y rhannau pwysig.



Mae’r llyfryn Hawdd ei Ddeall hwn yn defnyddio geiriau haws a lluniau. Falle fydd dal angen help ar rai pobl i’w ddarllen.




Mae rhai geiriau mewn **print trwm** - sef bod yr ysgrifen yn fwy trwchus ac yn dywyllach. Mae’r geiriau hyn yn bwysig.




Ambell waith, os yw gair mewn print trwm yn anodd ei ddeall, byddwn yn esbonio’r gair.




Mae geiriau glas wedi’u tanlinellu yn dangos dolen i wefan neu gyfeiriad ebost. Gallwch glicio ar rhain ar gyfrifiadur.

# Beth sydd yn y llyfryn


Am y llyfryn ........................................................................ 4

Am y cynllun ........................................................................ 5

Gwasanaethau gofal critigol ........................................................ 12

Gwasanaethau dermatoleg ........................................................ 20

Gwasanaethau llawfeddygaeth gyffredinol frys ................... 29

Gwasanaethau endosgopi ........................................................ 36

Gwasanaethau Offthalmoleg ........................................................ 43

Gwasanaethau orthopedeg ........................................................ 53

Gwasanaethau radioleg ........................................................ 60

Gwasanaethau Strôc ........................................................ 71

Gwasanaethau Wroleg ........................................................ 78


Ein hysbytai yn y dyfodol ........................................................ 83

Unrhyw beth arall ........................................................ 87

Cwestiynau amdanat ti ........................................................ 90

# Am y llyfryn

Mae'r llyfryn hwn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.



Ni'n darparu gwasanaethau iechyd i bobl yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, a phobl sy'n byw ger yr ardaloedd hynny.



Ry'n ni am wybod dy farn am ein cynlluniau i wneud newidiadau i 9 gwasanaeth.



Bydd y llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth i ti am y gwasanaethau a beth rydym yn bwriadu gwneud.



Ry'n ni'n gwybod bod llawer o wybodaeth yn y llyfryn hwn, felly does dim rhaid i ti ateb yr holl gwestiynau os nad wyt ti eisiau.

# Am y cynllun



Dyw rhai o'n gwasanaethau ysbyty ddim bob amser yn ddigon da a diogel.



Mae hyn achos bod ein timau'n gweithio mewn sawl lle gwahanol, felly weithiau mae rhannau o wasanaeth yn cael eu gwneud gan 1 person yn unig.

Mae problemau gyda ni o hyd achos pandemig COVID-19, fel:



- Nifer o gleifion yn aros amser hir i gael triniaeth.




- Mwy o bobl angen help neu driniaeth.




- Dim digon o staff.



Ers y pandemig does dim digon o **ofal cymdeithasol** i bawb sydd ei angen.

**Gofal cymdeithasol** yw'r gefnogaeth ychwanegol mae rhai pobl angen gyda bywyd bob dydd, fel gofal personol.



Dyw rhai o'n gwasanaethau dal ddim yn gallu gweld cymaint o bobl â cyn y pandemig.



Mae hyn yn golygu bod cleifion yn aros yn hir am rai mathau o ofal.




Mae gan ein cynllun ddewisiadau gwahanol ar gyfer sut i redeg 9 gwasanaeth.




Bydd y cynllun yn para am fwy na 4 blynedd, achos bydd yn cymryd amser i wneud y newidiadau i gyd.

Rydym am i'r cynllun:




- Gwneud ein gwasanaethau'n well.




- Gwneud yn siwr bod digon o staff gyda ni.




- Helpu i weld pobl yn gynt.

Ar gyfer pob un o'r gwasanaethau, ry'n ni am i ti ddweud:




- Pa un o'r opsiynau wyt ti'n meddwl fyddai'n gwneud ein gwasanaethau'n well.



- Unrhyw bryderon sydd gyda ti am y syniadau neu'r newidiadau posibl.




- Beth yw dy farn am beth y gallai ein hysbytai wneud yn y dyfodol.



- Unrhyw beth arall ti'n meddwl sydd angen i ni feddwl amdano, neu unrhyw syniadau arall sydd gyda ti.




I gael mwy o wybodaeth am ein cynlluniau, ewch i'n gwefan:

[www.hduhb.nhs.wales/clinical-services-consultation](http://www.hduhb.nhs.wales/clinical-services-consultation)




Os wyt ti am gael y wybodaeth ar bapur, neu mewn ffordd wahanol fel Braille, ffonia ni ar 0300 303 8322 a dewis opsiwn 5 'gwasanaethau eraill'.



I ddweud beth yw dy farn, galli di ysgrifennu yn y llyfryn hwn ac anfon dy atebion i:

Opinion Research Services
FREEPOST SS1018
Blwch Post 530
Abertawe
SA1 1ZL




Mae Opinion Research Services yw'r cwmni fydd yn edrych ar atebion pawb ac yn ysgrifennu adroddiad i ni.




Mae angen i ni gael dy atebion erbyn dydd Sul 31 Awst 2025.



Os wyt ti'n ateb dros dy hun, does dim angen i ni wybod pwy sydd wedi ateb.




Os wyt ti'n ateb dros sefydliad, efallai bydd angen i ni wybod pa sefydliad.




Fyddwn ni ddim yn gofyn am unrhyw wybodaeth bersonol amdanat, fel dy enw neu gyfeiriad.



Ond byddwn yn gofyn rhai cwestiynau i wneud yn siŵr ein bod yn cael gwybodaeth gan wahanol fathau a grwpiau o bobl.




Galli di edrych ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn cadw gwybodaeth yn ddiogel:

www.hduhb.nhs.wales/about-us/governance-arrangements/your-information-your-rights/privacy-notices

Neu galli di edrych ar wefan Opinion Research Services:

www.ors.org.uk/privacy

# Gwasanaethau gofal critigol



Mae **gwasanaethau gofal critigol** yn gofalu am bobl sy'n sâl iawn neu a allai farw.




Mae'r gofal hwn yn cael ei roi mewn **unedau gofal dwys**.



Ar hyn o bryd, mae unedau gofal dwys yn ysbytai Bronglais, Glangwili, Tywysog Philip a Llwynhelyg.



Mae rhai cleifion yn mynd o Ysbyty Tywysog Philip i Glangwili am fwy o ofal.



Mae'n anodd i ni gael digon o staff ar gyfer gwasanaethau gofal critigol.



Does dim un o'n hysbytai mor dda a diogel ag y dylent fod.




Ry'n ni'n meddwl am roi gofal critigol mewn llai o ysbytai.

Byddai hyn yn ein helpu:



- I roi gwell triniaeth.




- I gadw cleifion yn ddiogel.




- I wneud yn siŵr bod ein gwasanaethau'n ddigon da.




Byddai rhai ysbytai heb wasanaethau gofal critigol.




Yn lle hynny, byddai ganddynt **unedau gofal uwch**.

Byddai'r **unedau gofal uwch**:



- Yn trin pobl sydd ddim yn ddigon sâl i fod angen gofal critigol.




- Paratoi pobl sy'n sâl iawn i symud i uned gofal dwys Glangwili ar gyfer gofal critigol.

# Opsiwn A





Opsiwn A yw cadw unedau gofal dwys yn Bronglais a Glangwili.




A chreu unedau gofal gwell yn Ysbyty Tywysog Philip ac Ysbyty Llwynhelyg.




A chreu uned gofal uwch yn Glangwili fel bod yr uned gofal dwys yn gallu gofalu am gleifion sy'n sâl iawn yn unig.




Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i gleifion ger Llwynhelyg a Thywysog Philip deithio ymhellach i gael gofal pe byddent yn sâl iawn.

# Opsiwn B





Opsiwn B yw cadw unedau gofal dwys yn Bronglais, Glangwili a Llwynhelyg.




Byddai uned gofal uwch yn Ysbyty Tywysog Philip.




Byddai cleifion yn Ysbyty Tywysog Philip sydd angen gofal dwys yn cael eu cludo i uned gofal dwys Glangwili.




Byddai hyn yn golygu bod cleifion sy'n nes at Ysbyty Tywysog Philip sydd angen gofal dwys yn teithio ymhellach.

# Opsiwn C





Dewis C yw cadw unedau gofal dwys ym mhob ysbyty.



Byddai'r cleifion mwyaf sâl yn dal i gael eu symud o Ysbyty Tywysog Philip i uned gofal dwys Glangwili.



Byddai'n anodd cadw digon o staff ar gyfer yr opsiwn hwn.




Ond fyddai ddim angen i gymaint o gleifion deithio ymhellach.




**Cwestiwn 1**: Gan feddwl am y wybodaeth uchod i gyd, pa opsiwn wyt ti'n meddwl yw'r gorau ar gyfer gwasanaethau gofal critigol?

- ☐ Opsiwn A
- ☐ Opsiwn B
- ☐ Opsiwn C
- ☐ Dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw un o'r opsiynau yn well na'r lleill
- ☐ Dydw i ddim yn gwybod



**Cwestiwn 2**: Dwed pam wyt ti'n meddwl mai dyma'r opsiwn gorau.

Alli di feddwl am unrhyw ffordd o wneud y dewis hwnnw hyd yn oed yn well?

Oes gyda ti unrhyw syniadau arall am beth alle ni ei wneud?

Os oes angen, galli di ddefnyddio darn ychwanegol o bapur i ddweud beth wyt ti'n ei feddwl.

# Gwasanaethau dermatoleg



Mae **gwasanaethau dermatoleg** yn gofalu am y croen, gwallt ac ewinedd.




Ers pandemig COVID-19, mae gwasanaethau dermatoleg wedi cael eu darparu yn Ysbyty Tywysog Philip yn bennaf.




Gyda chlinig bob wythnos yn Glangwili hefyd.



Hefyd, mae gwasanaethau dan arweiniad nyrsys yng Nghanolfan Gofal Integredig Aberteifi ac Ysbyty Dinbych-y-pysgod.



Does dim gwasanaethau dermatoleg yn Bronglais na Llwynhelyg ar hyn o bryd.




Mae mwy o bobl eisiau defnyddio gwasanaethau dermatoleg, yn enwedig pobl a allai fod â chanser.



Mae hyn yn golygu bod pobl sydd ddim angen cael eu gweld yn gyflym yn gorfod aros yn hirach.




Does dim digon o **ymgynghorwyr** dermatoleg yn y wlad.

Mae **ymgynghorwyr** yn uwch feddygon sy'n gwybod llawer am eu pwnc.




Does dim ymgynghorydd dermatoleg parhaol wedi bod gyda ni ers 2016.



Mae problemau gyda staffio yn golygu bod yn rhaid i ni ganslo apwyntiadau a bod yn rhaid i gleifion aros yn hirach.




Ry'n ni'n bwriadu rhedeg pob gwasanaeth dermatoleg ysbyty o Ysbyty Tywysog Philip.

Byddai hyn yn ein helpu:




- I wella'r gwasanaeth.



- I gael a chadw staff, yn enwedig ymgynghorwyr.



Mae'r opsiynau ar gyfer dermatoleg yn ymwneud â ble dylai clinigau sydd ddim yn Ysbyty Tywysog Philip fod.


# Opsiwn A




Byddai clinigau dan arweiniad nyrsys a rhai llawdriniaethau bach yn aros yng Nghanolfan Gofal Integredig Aberteifi.




A dechrau rhai clinigau dan arweiniad nyrsys yn Ysbyty Dyffryn Aman.




Byddai dim clinigau yn Sir Benfro, felly byddai cleifion o'r ardal hon yn teithio ymhellach.


# Opsiwn B





Byddai clinigau dan arweiniad nyrsys yn aros yn Ysbyty De Sir Benfro.



Byddai rhai llawdriniaethau bach yn digwydd mewn rhai meddygfeydd.




Byddai dim clinigau yng Ngheredigion, oni bai am mewn rhai meddygfeydd.




Felly byddai'n rhaid i gleifion o Geredigion deithio ymhellach.

# Opsiwn C




Byddai clinigau dan arweiniad nyrsys a rhai llawdriniaethau bach yn dal i ddigwydd yng Nghanolfan Gofal Integredig Aberteifi.





Hefyd, byddai clinigau dan arweiniad nyrsys yn dal i ddigwydd yn Ysbyty De Sir Benfro.



Byddai rhai clinigau newydd dan arweiniad nyrsys i blant yng Nghanolfan Iechyd Cross Hands.



Byddai rhai llawdriniaethau bach yn digwydd mewn rhai meddygfeydd.



Mae'r opsiwn hwn yn cadw rhai gwasanaethau dermatoleg yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

# Opsiwn D





Byddai clinigau dan arweiniad nyrsys a rhai llawdriniaethau bach yn dal i ddigwydd yng Nghanolfan Gofal Integredig Aberteifi.




Hefyd, byddai clinigau dan arweiniad nyrsys yn dal i fodoli yn Ysbyty De Sir Benfro.



Byddai rhai clinigau newydd dan arweiniad nyrsys i blant yng Nghanolfan Iechyd Cross Hands.



Mae'r opsiwn hwn yn cadw rhai gwasanaethau dermatoleg yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.




**Cwestiwn 3**: Gan feddwl am y wybodaeth uchod i gyd, pa ddewis wyt ti'n meddwl yw'r gorau ar gyfer gwasanaethau dermatoleg?

- ☐ Opsiwn A
- ☐ Opsiwn B
- ☐ Opsiwn C
- ☐ Opsiwn D
- ☐ Dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw un o'r opsiynau yn well na'r lleill
- ☐ Dydw i ddim yn gwybod



**Cwestiwn 4**: Dwed pam wyt ti'n meddwl mai dyma'r opsiwn gorau.

Alli di feddwl am unrhyw ffordd o wneud y dewis hwnnw hyd yn oed yn well?

Oes gyda ti unrhyw syniadau arall am beth alle ni ei wneud?

Os oes angen, galli di ddefnyddio darn ychwanegol o bapur i ddweud beth wyt ti'n ei feddwl.

# Gwasanaethau llawfeddygaeth gyffredinol frys



**Llawfeddygaeth gyffredinol frys** yw pan mae angen llawdriniaeth yn ardal y bol ar unwaith.




Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau llawfeddygaeth gyffredinol frys yn digwydd yn Glangwili, Bronglais a Llwynhelyg.



Mae'n anodd cael digon o **lawfeddygon** ymgynghorol i wneud llawdriniaethau'n ddiogel yn yr ysbytai hyn.

**Llawfeddygon** yw meddygon sy'n gwneud llawdriniaethau.




Yn y ddau opsiwn, byddai'r gwasanaeth llawfeddygaeth gyffredinol frys yn aros yn Bronglais.




Yn y ddau opsiwn, byddai Ysbyty Tywysog Philip dal ddim yn trin cleifion llawfeddygaeth gyffredinol frys.




Byddai cleifion o ardal Ysbyty Tywysog Philip yn mynd i Ysbyty Glangwili am eu llawdriniaeth ac i wella.




Does dim digon o ymgynghorwyr llawfeddygaeth gyffredinol frys i redeg gwasanaethau yn Llwynhelyg a Glangwili.



Felly, ry'n ni am ddod â'r holl feddygon hyn i mewn i un tîm.




Byddai'r cynllun hwn yn ei gwneud hi'n haws cadw'r gwasanaeth yn ddiogel.



Hefyd, byddai'r cynllun hwn yn ei gwneud hi'n haws cael llawfeddygon ymgynghorol i weithio i ni.



Byddai'r rhan fwyaf o gleifion sydd ddim angen llawdriniaeth yn aros yn eu safle ysbyty agosaf yn y ddau ddewis.

## Opsiwn A




Byddai llawfeddygon ymgynghorol yn Bronglais a Glangwili.




Byddai cleifion yn Llwynhelyg sydd angen llawdriniaeth yn cael eu cludo i Glangwili.




Yna, bydde nhw yn mynd yn ôl i Llwynhelyg i wella.



Byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud hi'n haws cael llawfeddygon ymgynghorol i weithio i ni.



Hefyd, byddai pobl yn gwybod ble byddai llawdriniaethau'n digwydd.




Byddai'n rhaid i gleifion sy'n agosach at Llwynhelyg ac sydd angen llawdriniaethau llawfeddygol cyffredinol brys deithio i Glangwili.

## Opsiwn B




Byddai llawfeddygon ymgynghorol yn Bronglais.




Byddai llawfeddygon ymgynghorol yn gweithio yng Nglangwili un wythnos ac yn Llwynhelyg yr wythnos ganlynol.




Byddai llawfeddygon ymgynghorol yn dal i swopio ble maen nhw'n gweithio.




Weithiau, byddai hyn yn golygu y gallai cleifion gael eu llawdriniaeth yn agosach at adref.




Ar adegau arall, bydde nhw'n cael eu symud i'r ysbyty lle mae llawdriniaethau'n digwydd yr wythnos honno.



Mae'r opsiwn hwn yn anoddach i staff.




Ond byddai ddim rhaid i rai cleifion deithio mor bell.




Byddai dal angen i ni i wneud llawdriniaethau yn Glangwili ar gyfer plant a phobl ifanc, hyd yn oed pan fydd y gwasanaeth yn digwydd yn Llwynhelyg.




Byddai angen i ni wneud yn siŵr bod digon o staff i wneud hyn.




**Cwestiwn 5**: Gan feddwl am y wybodaeth uchod i gyd, pa ddewis wyt ti'n meddwl yw'r gorau ar gyfer gwasanaethau llawfeddygaeth gyffredinol frys?

- ☐ Opsiwn A
- ☐ Opsiwn B
- ☐ Dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw un o'r opsiynau yn well na'r lleill
- ☐ Dydw i ddim yn gwybod



**Cwestiwn 6**: Dwed pam wyt ti'n meddwl mai dyma'r opsiwn gorau.

Alli di feddwl am unrhyw ffordd o wneud y dewis hwnnw hyd yn oed yn well?

Oes gyda ti unrhyw syniadau arall am beth alle ni ei wneud?

Os oes angen, galli di ddefnyddio darn ychwanegol o bapur i ddweud beth wyt ti'n ei feddwl.

# Gwasanaethau endosgopi



**Endosgopi** yw defnyddio camerâu bach i edrych y tu mewn i'r corff, mewn cleifion dros 16 oed.




Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau endosgopi yn digwydd yn Bronglais, Glangwili, Tywysog Philip a Llwynhelyg.




Y broblem fwyaf i'r gwasanaeth endosgopi yw bod angen i ni wneud mwy.



Os na fyddwn ni'n gwneud mwy, byddai'n rhaid i gleifion aros yn hirach am driniaeth.




Ym mhob un o'r opsiynau, byddai rhai gweithdrefnau endosgopi yn parhau i ddigwydd ym mhob un o'r pedwar prif safle ysbyty.




Mae'r opsiynau ar gyfer y gwasanaeth hwn yn ymwneud â ffyrdd gwahanol o wneud mwy.

# Opsiwn A



Byddai gwasanaethau **endosgopi gastroberfeddol** yn parhau ym mhob un o'r pedwar prif safle.


Mae gwasanaethau **endosgopi gastroberfeddol** yn edrych y tu mewn i'r stumog a'r coluddion.




Yn Ysbyty Tywysog Philip, byddai'r uned yn mynd yn fwy, o ddwy i dair ystafell.




Byddai hyn yn golygu ein bod ni'n gallu gwneud mwy o wasanaethau endosgopi yn yr un lle, gan gynnwys gwneud yr holl wasanaethau endosgopi ar gyfer anadlu a pisio yn Ysbyty Tywysog Philip.




Byddai'n rhaid i gleifion sy'n byw y tu allan i ardaloedd Tywysog Philip deithio ymhellach ar gyfer y gwasanaethau hyn.




Byddai dim newidiadau i'r gwasanaeth **sgrinio coluddion**.

**Sgrinio coluddion** yw edrych i weld a oes unrhyw broblemau gyda'u carthion neu eu coluddion.

## Opsiwn B




Byddai gwasanaethau endosgopi yn parhau yn yr un ysbytai ag y maen nhw ar hyn o bryd.



Byddai'r holl sgrinio coluddion yn symud i safle ar gyfer y gwasanaeth hwn yn unig.



Yn dibynnu ar ble byddwn yn rhoi'r gwasanaeth sgrinio coluddion, byddai'n rhaid i rai cleifion deithio ymhellach, ond byddai'n rhaid i rai deithio llai pell.

# Opsiwn C





Byddai gwasanaethau endosgopi gastroberfeddol yn parhau ym mhob un o'r pedwar prif safle.



Byddai'r gwasanaeth yn Ysbyty Tywysog Philip yn cynyddu trwy weithio'n hwyrach o ddydd Llun i ddydd Gwener, a dechrau gweithio ar y penwythnos.




Byddai hyn yn golygu gallu gwneud yr holl wasanaethau endosgopi ar gyfer anadlu a pisio yn Ysbyty Tywysog Philip.




Byddai'n rhaid i gleifion sy'n byw y tu allan i ardaloedd Ysbyty Tywysog Philip deithio ymhellach ar gyfer y gwasanaethau hyn.



Ond byddai mwy o apwyntiadau gyda'r nos ac ar benwythnosau yn Ysbyty Tywysog Philip.




Byddai dim newidiadau i'r gwasanaeth sgrinio coluddion.




**Cwestiwn 7**: Gan feddwl am y wybodaeth uchod i gyd, pa ddewis wyt ti'n meddwl yw'r gorau ar gyfer gwasanaethau endosgopi?

- ☐ Opsiwn A
- ☐ Opsiwn B
- ☐ Opsiwn C
- ☐ Dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw un o'r opsiynau yn well na'r lleill
- ☐ Dydw i ddim yn gwybod



**Cwestiwn 8**: Dwed pam wyt ti'n meddwl mai dyma'r opsiwn gorau.

Alli di feddwl am unrhyw ffordd o wneud y dewis hwnnw hyd yn oed yn well?

Oes gyda ti unrhyw syniadau arall am beth alle ni ei wneud?

Os oes angen, galli di ddefnyddio darn ychwanegol o bapur i ddweud beth wyt ti'n ei feddwl.

# Gwasanaethau Offthalmoleg



Mae **offthalmoleg** yn trin clefydau ac anafiadau llygaid, gan gynnwys pigiadau a llawdriniaethau llygaid.




Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau ysbyty offthalmoleg yn digwydd yn Bronglais, Glangwili, Tywysog Philip a Llwynhelyg.




Hefyd, mae clinigau mewn gwahanol lefydd.




Ym mhob opsiwn, byddai'r rhan fwyaf o wasanaethau offthalmoleg yn digwydd naill ai yn Glangwili neu Tywysog Philip.

Byddai cael y rhan fwyaf o wasanaethau offthalmoleg mewn un prif ysbyty:




- Yn golygu bod dim rhaid i gleifion aros mor hir am driniaeth.




- Yn ein helpu i gael a chadw mwy o staff.




- Yn gwneud i'r gwasanaeth redeg yn well.


Ym mhob opsiwn:




- Byddai ysbyty Llwynhelyg yn parhau i wneud y rhan fwyaf o'r gwasanaethau y mae'n gwneud ar hyn o bryd.



- Byddai Canolfan Gofal Integredig Aberteifi a Chlinig Llygaid Heol y Gogledd (Aberystwyth) yn darparu rhai gwasanaethau i bobl sydd ddim angen cael eu gweld mewn ysbyty.




- Ni fyddai gwasanaeth offthalmoleg yng Nghanolfan Gofal Integredig Aberaeron.



- Byddai gwasanaethau pigiadau llygaid rheolaidd yn digwydd ym mhob safle sy'n darparu gwasanaethau i bobl sydd ssim angen aros yn yr ysbyty.

# Opsiwn A




Byddai'r rhan fwyaf o wasanaethau llygaid sydd angen eu gwneud yn yr ysbyty, gan gynnwys gofal llygaid brys, yn digwydd yn Glangwili.




Byddai dim gwasanaethau offthalmoleg yn Bronglais na Tywysog Philip.



Byddai Ysbyty Dyffryn Aman yn gwneud rhai llawdriniaethau llygaid, ond dim pigiadau llygaid.

Byddai hyn:




- Yn golygu bod dim rhaid i gleifion aros mor hir am driniaeth.




- Yn ein helpu i gael a chadw digon o staff.

# Opsiwn B




Byddai'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau llygaid sydd angen eu gwneud yn yr ysbyty, gan gynnwys gofal llygaid brys, yn digwydd yn Ysbyty Tywysog Philip.




Byddai dim gwasanaethau llygaid yn Glangwili.




Byddai Bronglais yn parhau i wneud yr un gwasanaethau llygaid.



Byddai Ysbyty Dyffryn Aman yn gwneud pigiadau llygaid, ond dim llawdriniaethau llygaid.




Byddai gwasanaethau i bobl sy'n byw yn Sir Benfro sydd ddim angen aros yn yr ysbyty yn cael eu darparu rhywle yn Sir Benfro.




Byddai'r opsiwn hwn yn cadw mwy o wasanaethau'n agosach at adref i rai cleifion.



Ond efallai bydd yn rhaid i rai cleifion aros am driniaeth.



Efallai bydd problemau o hyd i gael a chadw digon o staff.

# Opsiwn C




Byddai'r rhan fwyaf o wasanaethau llygaid sydd angen eu gwneud yn yr ysbyty, gan gynnwys gofal llygaid brys, yn digwydd yn Glangwili.




Byddai dim gwasanaethau llygaid yn Ysbyty Tywysog Philip.




Byddai Bronglais yn parhau i wneud y gwasanaethau llygaid mae'n eu gwneud ar hyn o bryd.



Byddai Ysbyty Dyffryn Aman yn dal i wneud pigiadau llygaid ond dim llawdriniaethau.




Byddai rhai gwasanaethau'n agosach at adref i rai cleifion.



Ond yn opsiwn C, efallai y bydd yn rhaid i gleifion aros amser hir am driniaeth.



Ac efallai y bydd dal i fod yn anodd cael a chadw digon o staff.




**Cwestiwn 9**: Gan feddwl am y wybodaeth uchod i gyd, pa ddewis wyt ti'n meddwl yw'r gorau ar gyfer gwasanaethau offthalmoleg?

- ☐ Opsiwn A
- ☐ Opsiwn B
- ☐ Opsiwn C
- ☐ Dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw un o'r opsiynau yn well na'r lleill
- ☐ Dydw i ddim yn gwybod



**Cwestiwn 10**: Dwed pam wyt ti'n meddwl mai dyma'r opsiwn gorau.

Alli di feddwl am unrhyw ffordd o wneud y dewis hwnnw hyd yn oed yn well?

Oes gyda ti unrhyw syniadau arall am beth alle ni ei wneud?

Os oes angen, galli di ddefnyddio darn ychwanegol o bapur i ddweud beth wyt ti'n ei feddwl.


# Gwasanaethau orthopedeg



Mae **gwasanaethau orthopedig** yw gofalu am esgyrn, cymalau, a meinweoedd meddal yn y corff, fel cyhyrau.




Mae'r opsiynau ond yn ymwneud â gwasanaethau orthopedig wedi'u cynllunio a dim orthopedig brys.





Y broblem fwyaf mewn gwasanaethau orthopedig yw bod angen i ni wneud mwy fel bod cleifion ddim yn aros mor hir.




Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau orthopedig yn Bronglais, Glangwili, Tywysog Philip a Llwynhelyg.



Yn ogystal â'r gwasanaethau ysbyty, mae clinigau yng Nghanolfan Gofal Integredig Aberteifi, Ysbyty De Sir Benfro ac Ysbyty Dinbych-y-pysgod ar gyfer pobl sydd ddim angen aros yn yr ysbyty.




Mae ein staff hefyd yn gweithio mewn clinigau yn Ysbyty Tywyn, sy'n cael ei redeg gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.




Mae hyn yn golygu bod dim rhaid i gleifion deithio mor bell i gael triniaeth.




Ym mhob opsiwn, byddai pob safle yn parhau i roi rhai gwasanaethau i bobl sydd ddim angen aros yn yr ysbyty.




Byddai Bronglais a Tywysog Philip yn dal i wneud llawdriniaethau i bobl sydd angen aros yn yr ysbyty.

# Opsiwn A





Byddai mwy o lawdriniaethau syml yn Llwynhelyg.




Byddai Ysbyty Tywysog Philip yn gwneud y llawdriniaethau mwy anodd i gleifion o'n hardal ni a hefyd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.



Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fel bod pob claf yn cael gofal yn y lle gorau.




Gallai hyn olygu byddai ein cleifion yn mynd i Ysbyty Castell-nedd Port Talbot am rai llawdriniaethau.

## Opsiwn B




Mae Opsiwn B yr un peth â dewis A, ond byddai'r gwasanaeth orthopedig ar agor am amser hirach.




Byddai hyn yn golygu y gallem wneud mwy o lawdriniaethau.

## Opsiwn C




Yn opsiwn C, byddai llawdriniaethau mwy syml yn Llwynhelyg.





Byddai hyn yn golygu gallu gwneud mwy o lawdriniaethau.




Byddai Tywysog Philip yn gwneud y llawdriniaethau anoddaf i gleifion o'n hardal ni.

## Opsiwn D




Byddai mwy o driniaeth yn Ysbyty Llwynhelyg a Bronglais i gleifion sydd ddim angen aros yn yr ysbyty.




Byddai Tywysog Philip yn gwneud y llawdriniaethau mwyaf anodd i gleifion o'n hardal ni a hefyd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.



Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fel bod pob claf yn cael gofal yn y lle gorau.




**Cwestiwn 11**: Gan feddwl am y wybodaeth uchod i gyd, pa ddewis wyt ti'n meddwl yw'r gorau ar gyfer gwasanaethau orthopedeg?

- ☐ Opsiwn A
- ☐ Opsiwn B
- ☐ Opsiwn C
- ☐ Opsiwn D
- ☐ Dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw un o'r opsiynau yn well na'r lleill
- ☐ Dydw i ddim yn gwybod



**Cwestiwn 12**: Dwed pam wyt ti'n meddwl mai dyma'r opsiwn gorau.

Alli di feddwl am unrhyw ffordd o wneud y dewis hwnnw hyd yn oed yn well?

Oes gyda ti unrhyw syniadau arall am beth alle ni ei wneud?

Os oes angen, galli di ddefnyddio darn ychwanegol o bapur i ddweud beth wyt ti'n ei feddwl.

# Gwasanaethau radioleg



**Radioleg** yw edrych y tu mewn i'r corff i ddod o hyd i glefydau ac anafiadau a'u trin.




Un enghraifft o wasanaeth radioleg yw pelydrau-X.



Mae rhai gwasanaethau radioleg yn ein helpu i ddarganfod beth sy'n bod ar gleifion. Yr enw ar hyn yw **radioleg ddiagnostig**.




Mae radioleg ddiagnostig frys yn digwydd drwy'r dydd bob dydd.




Dydyn ni ddim yn bwriadu newid hyn.





I gleifion gyda chynllun ar eu cyfer i ddod i'r ysbyty, ry'n ni'n gwneud radioleg ddiagnostig 5 diwrnod yr wythnos, yn ystod y dydd.




Mae gwasanaethau radioleg arall yn helpu i ddarganfod beth sy'n bod pan mae'n fwy cymhleth i'w ddatrys. Yr enw ar hyn yw **radioleg ymyriadol**.




Ar hyn o bryd, dim ond 5 diwrnod yr wythnos, yn ystod y dydd, mae gwasanaethau radioleg ymyriadol yn digwydd.




Ry'n ni wedi bod yn gwneud mwy o radioleg yn ein holl ysbytai.




Ond does dim digon o staff i wneud rhai gwasanaethau am oriau hirach.



Mae gyda ni broblemau hefyd i gadw offer yn gyfredol ym mhob ysbyty.




Felly mae ein holl opsiynau yn cynnig gwneud gwasanaethau radioleg mewn llai o lefydd.

Mae hyn yn golygu:




- Gallu trin mwy o gleifion.




- Gallu cael mwy o staff radioleg yn yr ysbytai hynny.





Ond byddai'n golygu bod yn rhaid i rai staff newid ble maen nhw'n gweithio.




Mae'r opsiynau'n helpu gyda prinder staff, ond ddim yn ddigon i ateb yr angen am radioleg ymyriadol yn llawn.



Ym mhob un o'r opsiynau, byddai gwneud pelydrau-X yn dod i ben yn ysbytai Llanymddyfri a De Sir Benfro.





Felly byddai'n rhaid i gleifion sy'n byw ger yr ysbytai hyn deithio ymhellach am eu pelydrau-X.



Ym mhob un o'r opsiynau, byddai gwasanaethau pelydr-X yn aros yng Nghanolfan Gofal Integredig Aberteifi ac Ysbyty Dinbych-y-pysgod.

# Opsiwn A

Yn Bronglais, Tywysog Philip a Llwynhelyg byddai:




- Gwasanaeth radioleg diagnostig wedi'i gynllunio.



- Gwasanaeth radioleg ymyriadol i bobl sydd ddim angen aros yn yr ysbyty.





Byddai Glangwili yn darparu radioleg ymyriadol i gleifion mewnol ar gyfer ein hardal gyfan.



Byddai cael gwasanaethau ar wahân i bobl sydd angen a sydd ddim angen aros yn yr ysbyty yn golygu byddai ddim angen i ni ganslo cymaint o driniaethau.

# Opsiwn B

Yn Bronglais, Glangwili, Tywysog Philip a Llwynhelyg byddai:




- Radioleg ddiagnostig bob dydd.




- Radioleg ymyriadol yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener.




Byddai lle newydd hefyd ar gyfer radioleg ddiagnostig, o'r enw hyb.



Dydyn ni ddim yn gwybod ble fyddai'r hyb hwn eto.




Byddai'r hyb newydd yn golygu mai dim ond cleifion a allai fod â chanser y byddai Tywysog Philip a Llwynhelyg yn gofalu amdanynt.



Gallai'r cleifion hyn gael llawer o brofion gwahanol ar yr un diwrnod ac yn yr un lle.



Byddai'r dewis hwn yn ei gwneud hi'n gyflymach darganfod beth sy'n bod ar gleifion.




Ond byddai'r dewis hwn yn golygu y byddai angen mwy o staff.

# Opsiwn C




Byddai radioleg ddiagnostig wedi'i chynllunio yn Bronglais, Glangwili, Tywysog Philip a Llwynhelyg, o ddydd Llun i ddydd Gwener.




Byddai'n golygu gwneud gwasanaethau ymyriadol yn Bronglais a Glangwili yn unig.





Byddai hyn yn helpu i wneud y gwasanaeth yn fwy diogel.



Byddai hefyd yn golygu na fyddai'n rhaid canslo cymaint o wasanaethau diagnostig yn Tywysog Philip a Llwynhelyg.

# Opsiwn D




Yn Bronglais, Glangwili, Tywysog Philip a Llwynhelyg, byddai gwasanaeth radioleg diagnostig bob dydd.

Byddai gwasanaeth radioleg ymyriadol hefyd:




- Yn Glangwili, Tywysog Philip a Llwynhelyg o ddydd Llun i ddydd Gwener.




- Yn Glangwili drwy'r amser.




Byddai'r dewis hwn yn golygu bod angen mwy o staff.




**Cwestiwn 13**: Gan feddwl am y wybodaeth uchod i gyd, pa ddewis wyt ti'n meddwl yw'r gorau ar gyfer gwasanaethau radioleg?

- ☐ Opsiwn A
- ☐ Opsiwn B
- ☐ Opsiwn C
- ☐ Opsiwn D
- ☐ Dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw un o'r opsiynau yn well na'r lleill
- ☐ Dydw i ddim yn gwybod




**Cwestiwn 14**: Dwed pam wyt ti'n meddwl mai dyma'r opsiwn gorau.

Alli di feddwl am unrhyw ffordd o wneud y dewis hwnnw hyd yn oed yn well?

Oes gyda ti unrhyw syniadau arall am beth alle ni ei wneud?

Os oes angen, galli di ddefnyddio darn ychwanegol o bapur i ddweud beth wyt ti'n ei feddwl.

# Gwasanaethau Strôc



Mae **strôc** yn gyflwr difrifol sy'n digwydd pan mae gwaed i ran o'r ymennydd yn cael ei dorri i ffwrdd.




Weithiau mae pobl yn marw o strôc.




Ar hyn o bryd, mae unedau strôc ym mhob un o'r pedwar ysbyty: Bronglais, Glangwili, Tywysog Philip a Llwynhelyg.




Ond dyw'r gwasanaeth ddim yn ddigon da, a does dim digon o staff.



Mae hyn yn golygu bod rhai pobl ddim yn gwella cystal ag y dylent.




Ry'n ni'n gwybod y byddai gwasanaethau'n well gyda'i gilydd, mewn llai o safleoedd.

Byddai dod â'r gwasanaethau at ei gilydd:



- Yn gwneud hi'n haws cael a chadw staff.



- Yn cadw'r gwasanaeth i redeg.




Ry'n ni'n edrych ar ddau opsiwn gwahanol ar gyfer sut i ddarparu gwasanaethau strôc.




Byddai ambiwlans yn mynd â rhywun sy'n cael strôc i'w hysbyty agosaf.




Byddai pob ysbyty yn gwneud archwiliadau ac yn rhoi rhywfaint o driniaeth.




Os byddai angen mwy o driniaeth, byddai cleifion yn cael eu cludo i'r ysbyty agosaf a allai roi'r driniaeth honno.

# Opsiwn A




Byddai gan Tywysog Philip a Llwynhelyg unedau strôc, gyda staff arbenigol yn gweithio 12 awr y dydd.




Felly, byddai cleifion strôc o Bronglais a Glangwili yn cael eu cludo i Tywysog Philip neu Llwynhelyg i gael eu gofal strôc.




Byddai hyn yn haws i gael digon o staff.

# Opsiwn B




Byddai gan Tywysog Philip uned strôc gyda staff arbenigol yno drwy'r amser.




Byddai gan Llwynhelyg uned strôc, gyda staff arbenigol yn gweithio 12 awr y dydd.




Felly, byddai cleifion strôc o uned strôc Bronglais, Glangwili a Llwynhelyg yn cael eu cludo i Tywysog Philip i gael gofal, fel arfer am 72 awr.




Ar ôl hynny, os oes angen i gleifion aros yn yr ysbyty o hyd, byddent naill ai'n aros yn Tywysog Philip neu'n mynd i Llwynhelyg.





Byddai'r opsiwn hwn yn gwella'r gwasanaeth.




Byddai'r dewis hwn hefyd yn golygu bod staff sy'n arbenigo mewn triniaeth strôc ar gael drwy'r amser.




Hefyd, byddai'n helpu i gael mwy o staff.




Ond byddai mwy o gleifion ac ymwelwyr yn teithio ymhellach i gael gofal strôc na Dewis A.




Mae hyn achos byddai pob claf strôc yn cael ei gludo i Tywysog Philip.




**Cwestiwn 15**: Gan feddwl am y wybodaeth uchod i gyd, pa ddewis wyt ti'n meddwl yw'r gorau ar gyfer gwasanaethau strôc?

☐ Opsiwn A

☐ Opsiwn B

☐ Dydw i ddim yn meddwl bod unrhyw un o'r opsiynau yn well na'r lleill

☐ Dydw i ddim yn gwybod



**Cwestiwn 16**: Dwed pam wyt ti'n meddwl mai dyma'r opsiwn gorau.

Alli di feddwl am unrhyw ffordd o wneud y dewis hwnnw hyd yn oed yn well?

Oes gyda ti unrhyw syniadau arall am beth alle ni ei wneud?

Os oes angen, galli di ddefnyddio darn ychwanegol o bapur i ddweud beth wyt ti'n ei feddwl.

# Gwasanaethau Wroleg

Mae **wroleg** yn ofal meddygol i oedolion sydd â phroblemau:



- Yn y rhannau preifat, os ydyn nhw'n ddynion.



- Y rhannau o'r corff sy'n gwneud pisio.




Mae gofal wroleg ym mhob un o'r pedwar ysbyty.




Ond does dim digon o staff, felly mae'n rhaid i rai pobl aros amser hir i gael triniaeth.

# Ein cynllun




Er mwyn helpu i gael digon o staff, ry'n ni am wneud y rhan fwyaf o ofal wroleg mewn 1 ysbyty.



Byddai'n gofalu am yr holl bobl sydd angen aros yn yr ysbyty am driniaeth wroleg.




Ry'n ni'n credu mai Tywysog Philip yw'r lle gorau i wneud y rhan fwyaf o'r gofal wroleg.



Byddai'n agos at y gwasanaeth endosgopi yno.



Byddai'r gwasanaeth wroleg hefyd yn cadw llygad am ganser yn y rhannau hynny o'r corff ar gyfer pobl yn ein hardal.




Dim ond gwasanaethau i bobl â phroblemau wroleg brys fyddai'n aros yn Glangwili.

Yn Llwynhelyg a Bronglais, byddai dal i fod gwasanaethau wroleg ar gyfer:



- Pobl sydd ddim angen aros yn yr ysbyty.




- Pobl sydd angen profion i ddarganfod beth sy'n bod.




Os ydym yn credu bod canser ar rywun, bydde nhw'n mynd i Tywysog Philip am brofion.




Dylai ein cynllun olygu bod yn rhaid i gleifion fynd i'r ysbyty yn llai aml.




Ond byddai'n rhaid i rai cleifion deithio ymhellach i gyrraedd apwyntiadau.



**Cwestiwn 17**: Faint ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynllun hwn ar gyfer gwasanaethau wroleg?

- ☐ Cytuno'n fawr
- ☐ Cytuno
- ☐ Dim cytuno na anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n fawr
- ☐ Dydw i ddim yn gwybod



**Cwestiwn 18**: Dwed pam wyt ti'n meddwl mai dyma'r opsiwn gorau.

Alli di feddwl am unrhyw ffordd o wneud y dewis hwnnw hyd yn oed yn well?

Oes gyda ti unrhyw syniadau arall am beth alle ni ei wneud?

Os oes angen, galli di ddefnyddio darn ychwanegol o bapur i ddweud beth wyt ti'n ei feddwl.

# Ein hysbytai yn y dyfodol




Ry'n ni am wybod dy farn am ddyfodol rhai ysbytai yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, a Sir Benfro.




Ry'n ni am newid sut mae rhai gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu.




Byddai hyn yn golygu newidiadau i'n pedwar prif ysbyty.

Gallai'r newidiadau olygu:




- Byddai Bronglais yn aros yr un fath, ond efallai y byddai angen i gleifion fynd i ysbytai arall am rai triniaethau.




- Byddai Glangwili yn rhoi mwy o ofal brys ac argyfwng, ond gallai rhywfaint o ofal wedi'i gynllunio ddigwydd mewn mannau arall.




- Byddai Tywysog Philip yn rhoi mwy o ofal wedi'i gynllunio a byddai'n gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar gyfer rhai gwasanaethau.




- Byddai Llwynhelyg yn rhoi mwy o ofal wedi'i gynllunio i gleifion yn ein hardal.




- Efallai bydd angen i rai pobl fynd i Glangwili am ofal ychwanegol.



**Cwestiwn 19**: Faint wyt ti'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynllun hwn ar gyfer ein ysbytai?

- [ ] Cytuno'n fawr
- [ ] Cytuno
- [ ] Dim cytuno na anghytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Anghytuno'n fawr
- [ ] Dydw i ddim yn gwybod




**Cwestiwn 20**: Dwed pam wyt ti'n meddwl mai dyma'r opsiwn gorau.

Alli di feddwl am unrhyw ffordd o wneud y dewis hwnnw hyd yn oed yn well?

Oes gyda ti unrhyw syniadau arall am beth alle ni ei wneud?

Os oes angen, galli di ddefnyddio darn ychwanegol o bapur i ddweud beth wyt ti'n ei feddwl.

# Unrhyw beth arall




**Cwestiwn 21**: Oes unrhyw beth arall wyt ti am ddweud?

Gallai hyn fod:



- Unrhyw beth wyt ti ddim yn credu ein bod ni wedi meddwl amdano.




- Sylwadau am ysbyty.




- Am gyrraedd ysbyty.




- Am gefnogaeth i gleifion, ymwelwyr a staff.



Neu efallai hoffe ti ddweud beth mae ein opsiynau yn golygu i'r **amgylchedd**.

Yr **amgylchedd** yw lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr awyr a phopeth sy'n byw ynddo ac arno.



Os oes angen, galli di ddefnyddio darn ychwanegol o bapur i ddweud beth wyt ti'n ei feddwl.

# Trin pawb yn deg



Rhaid i ni feddwl sut gallai unrhyw newid i'r gwasanaeth effeithio ar wahanol grwpiau o bobl.



Gall hyn fod achos oedran, anabledd, hir, crefydd neu rywbeth arall am eu cefndir.



**Cwestiwn 22**: Wyt ti'n credu gallai'r newid i'r gwasanaeth effeithio ar unrhyw grwpiau o bobl mewn ffordd dda neu ddrwg?

# Cwestiynau amdanat ti



Ni eisiau gwneud yn siŵr bod ni'n clywed gan wahanol grwpiau o bobl sy'n byw yng ngorllewin Cymru.



Bydd ateb y cwestiynau hyn yn ein helpi i wybod wrth pwy ni wedi clywed.



Does dim rhaid i ti ateb unrhyw gwestiwn os nag wyt ti eisiau.

Os wyt ti’n ateb y cwestiynau hyn ar ran sefydliad, dwed hyn wrthym:




- Enw'r sefydliad.



- Grŵp neu adran y sefydliad.



- Pwy mae’r sefydliad yn cefnogi.



- Ym mha ardal mae’r sefydliad yn gweithio.



Os wyt ti'n ateb y cwestiynau hyn ar ran sefydliad, dwed hefyd sut y gwnaethoch chi wrando ar syniadau aelodau'r sefydliad.

Os wyt ti'n ateb y cwestiynau hyn dros dy hun, rho'r cod post yn y blwch isod:





**Cwestiwn 23**: Beth yw dy oedran?

*Ticia un blwch*


- [ ] Dan 18
- [ ] 18 i 24
- [ ] 25 i 34
- [ ] 35 i 44
- [ ] 45 i 54
- [ ] 55 i 64
- [ ] 65 i 74
- [ ] 75 a throsodd



**Cwestiwn 24**: Beth yw dy **ryw**?

Dy **ryw** yw sut wyt ti’n meddwl am dy hun. Mae’r rhan fwyaf o bobl yn meddwl am eu hunain naill ai fel dyn neu menyw.

- ☐ Dyn
- ☐ Menyw
- ☐ Anneuaidd – mae hyn yn golygu bod ti ddim yn meddwl am dy hun fel dyn na menyw
- ☐ Fi’n defnyddio gair arall ar gyfer fy rhyw
- ☐ Dydw i ddim am ddweud




**Cwestiwn 25**: A ydy dy ryw yr un peth â'r rhyw cafodd ei gofrestru pan ges di dy eni?

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy
- ☐ Dydw i ddim am ddweud



**Cwestiwn 26**: A wyt ti'n disgwyl babi neu wedi cael babi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Dydw i ddim am ddweud



**Cwestiwn 27**: Beth yw dy **grŵp ethnig?** *Ticia 1 blwch yn unig.*

Dy **grŵp ethnig** yw dy hil, gefndir neu'r wlad y mae dy deulu yn dod ohoni.

☐ Gwyn

☐ Mwy nag 1 cefndir ethnig

☐ Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

☐ Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Du Prydeinig

☐ Dydw i ddim am ddweud

☐ Unrhyw grŵp ethnig arall - pa un:



**Cwestiwn 28**: Beth yw dy gyfeiriadedd rhywiol?

Dyma pwy wyt ti'n cael dy ddenu ato.

- ☐ **Anrhywiol** - ti ddim yn teimlo atyniad rhywiol at unrhyw un
- ☐ **Deurywiol** - rwyt ti'n cael dy ddenu at fwy nag un rhyw
- ☐ Menyw Hoyw neu Lesbiaidd
- ☐ Heterorywiol neu Syth
- ☐ Dydw i ddim am ddweud
- ☐ Arall



**Cwestiwn 29**: Oes gyda ti salwch neu anabledd hirdymor yn dy gorff neu dy feddwl sy'n effeithio ar yr hyn y galli di ei wneud yn dy fywyd bob dydd?

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes
- ☐ Dydw i ddim eisiau dweud



**Cwestiwn 30**: Wyt ti'n gofalu am rywun heb gael dy dalu, fel ffrind, aelod o'r teulu neu gymydog?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Dydw i ddim eisiau dweud



**Cwestiwn 31**: Beth yw iaith y cartref?

- ☐ Saesneg
- ☐ Cymraeg
- ☐ Arall - pa iaith:

Cynhyrchwyd y llyfryn Hawdd ei Ddeall hwn gan easy-read-online.co.uk
Mae'r llyfryn yn cynnwys delweddau wedi'u trwyddedu gan Photosymbols a Shutterstock.